## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (FFORDD OSGOI'R DRENEWYDD I'R DE O GYFFORDD LLAETHDDU, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn tra bo gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, o Ffordd Osgoi'r Drenewydd i'r de o gyffordd Llaethddu yn Sir Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o gyffordd tua'r de Cylchfan Laura Ashley ar Ffordd Osgoi'r Drenewydd i gyfeiriad y de hyd at bwynt 868 o fetrau i'r de o gyffordd Llaethddu yr C1203.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A483 tua'r de i Gylchfan y Groes, yr A44 tua'r gorllewin i Raeadr Gwy, yr A470 tua'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain i Gaersŵs ac yna ar yr A489 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A483 yn y Drenewydd. I'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol yn ysbeidiol rhwng 09:00 o'r gloch a 15:00 o'r gloch ar 16 Mehefin 2025 tan 20 Mehefin 2025 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Bydd mynediad ar gyfer cerbydau gwasanaeth cyhoeddus, bysiau ysgol ac at eiddo ar hyd y darn yr effeithir arno yn cael ei gynnal ond gall fod oedi tra bo cerbydau'n cael eu rheoli'n ddiogel drwy unrhyw safleoedd gwaith.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth

## THE A483 TRUNK ROAD (NEWTOWN BYPASS TO SOUTH OF LLAETHDDU JUNCTION, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary whilst works are undertaken on or near the A483 trunk road from Newtown Bypass to the south of Llaethddu junction, in the County of Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services) from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from the southbound junction of the Laura Ashley Roundabout on Newtown Bypass in a southerly direction to a point 868 metres south of the C1203 Llaethddu junction.

The alternative route for northbound vehicles will be via the southbound A483 to Crossgates Roundabout, westbound A44 to Rhayader, north and north-eastbound A470 to Caersws, and then the A489 eastbound to re-join the A483 at Newtown. Vice versa for southbound vehicles.

The prohibition, which will be signed accordingly, is expected to operate intermittently between 09:00 hours and 15:00 hours on 16 June 2025 until 20 June 2025 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Access for public service vehicles, school buses and to properties along the affected length will be maintained but may be delays whilst vehicles are safely managed through any work sites.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled, or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government